Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol

Mai 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion pob oed
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda gyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru
Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Pa mor dda y mae colegau'n mesur cynnydd dysgwyr?** | **7** |
| Asesiad a gwybodaeth cyn mynediad gan ddarparwyr dysgu blaenorol | 7 |
| Ystod, ansawdd a'r defnydd o ddata i fesur cynnydd | 10 |
| **Pa mor dda y mae colegau'n paratoi dysgwyr ar gyfer pontio?** | **13** |
| Pontio i goleg | 13 |
| Cynllunio rhaglenni | 14 |
| Cymwysterau a thystysgrifau dysgu | 16 |
| Medrau llythrennedd a rhifedd | 16 |
| Medrau bywyd a medrau annibynnol | 17 |
| Profiad gwaith | 18 |
| Pontio o goleg | 19 |
| Cyrchfannau | 20 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **22** |
| **Atodiad 2: Colegau arbenigol annibynnol yng Nghymru** | **23** |
| **Geirfa/cyfeiriadau** | **26** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **26** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor am y trefniadau mewn colegau arbenigol annibynnol ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr a'r graddau y caiff dysgwyr eu paratoi ar gyfer trosglwyddo i addysg bellach neu gyflogaeth. Mae'r cais gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn 2015-2016.

Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu'n bennaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, colegau arbenigol annibynnol ac awdurdodau lleol. Gallai hefyd fod o ddiddordeb i adrannau medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach ac asiantaethau, dysgwyr, rhieni, staff a rheolwyr mewn sectorau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth a nodwyd yn Atodiad 1.

## Cefndir

Mae colegau arbenigol annibynnol (CAAau) yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr o 16 oed sydd ag ystod o anawsterau ac anableddau dysgu. Mae pedwar o'r chwe choleg arbenigol annibynnol yng Nghymru yn cynnig gofal preswyl ochr yn ochr â'u darpariaeth addysg.

Ar hyn o bryd, caiff lleoliadau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cais gan Gyrfa Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn cynnal asesiad o dan adran 140 Deddf Dysgu a Sgiliau (2000). Mae'r asesiad hwn yn nodi anghenion y dysgwyr a darpariaeth addas i fodloni'r anghenion hynny. I ddysgwyr sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, cynhelir yr asesiadau hyn yn eu blwyddyn ysgol olaf pan fyddant yn bwriadu mynd ymlaen i addysg bellach (AB), dysgu yn y gwaith neu addysg uwch. Pan fydd yr asesiadau hyn yn dod i'r casgliad mai'r unig ddarpariaeth addas sydd ar gael yw coleg arbenigol annibynnol, gwneir cais am gyllid i Lywodraeth Cymru.

Nid oes proses ffurfiol o gyfeirio i goleg arbenigol annibynnol penodol. Fel arfer, caiff dysgwyr a'u teuluoedd eu cyfeirio tuag at goleg arbenigol annibynnol gan athrawon, penaethiaid, ymgynghorwyr Gyrfa Cymru a gweithwyr cymdeithasol unigol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn digwydd trwy'r broses adolygu datganiad blynyddol ffurfiol ac asesiad adran 140. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o deuluoedd sy'n llwyddiannus yn eu cais am leoliad mewn coleg arbenigol annibynnol wedi nodi mai dyma'r llwybr y maent yn ei ffafrio ar gyfer eu plentyn flynyddoedd ynghynt a byddant wedi gweithio gyda'u gweithiwr cymdeithasol dros gyfnod i gyflawni hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni'n ymweld â'r coleg arbenigol annibynnol cyn i Gyrfa Cymru wneud cais ffurfiol am gyllid i Lywodraeth Cymru.

Mae Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2015) Llywodraeth Cymru yn amlinellu cynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd, a fydd yn disodli deddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig ac

asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu rhwng 0 a 25 oed. Mae cynigion yn cynnwys rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, am sicrhau darpariaeth AB arbenigol lle bydd angen i fodloni anghenion dysgu unigol yr unigolyn ifanc.

Mae adroddiadau arolygu Estyn, a thystiolaeth o ymweliadau monitro blynyddol, yn dangos arfer amrywiol yn y ffordd y mae colegau arbenigol annibynnol yn cofnodi, monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn dangos tuedd o wella dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ychwanegol, mae'r graddau y caiff dysgwyr eu paratoi ar gyfer pontio i addysg bellach neu gyflogaeth yn amrywio'n sylweddol hefyd.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae yna chwe choleg arbenigol annibynnol (CAAau) yng Nghymru sy'n darparu addysg i ddysgwyr o 16 oed sydd ag ystod o anawsterau ac anableddau dysgu. Caiff lleoliadau addysgol dysgwyr mewn CAAau eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

2 Mewn pedwar o'r chwe CAA, caiff asesiad cyn mynediad dysgwyr ei ddiffinio'n dda gyda nodau ac amcanion clir. Mae'r asesiadau'n bwrpasol gyda ffocws cryf ar wneud yn siŵr mai'r ddarpariaeth fydd y lleoliad gorau ar gyfer y dysgwr. Mae pedwar CAA yn rhestru'n glir y wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn lleoli'r dysgwr. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i wneud yn siŵr bod cyfleusterau addysg a gofal yn briodol a helpu dysgwyr i ymgynefino'n gyflym. Rhoddir pwyslais cryf ar gael dealltwriaeth drylwyr o unrhyw rwystrau rhag dysgu a'r meysydd dysgu y mae dysgwyr yn eu mwynhau'n benodol hefyd. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw CAAau yn derbyn ystod lawn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn i'r dysgwr ddechrau.

3 Mae pedwar o'r CAAau yn annog dysgwyr i ymweld â'r CAA cyn dechrau eu lleoliad fel rhan o'u hasesiad cyn mynediad a defnyddiant yr ymweliadau i wirio'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu yn y gorffennol. Mewn un CAA, mae dysgwyr yn cynnal ymweliad tridiau tra byddant yn aros yn y llety preswyl. Mae'r ymweliad hwn yn cyflawni dibenion gwerthfawr ar gyfer y darparwr ac fe gaiff y dysgwr ei asesu'n ffurfiol gan staff addysg a staff preswyl.

4 Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn defnyddio ystod eang o ddata i fesur cynnydd dysgwyr. Defnyddiant asesiadau cyn mynediad ac asesiadau gwaelodlin o fedrau i fesur cynnydd, ac maent yn cofnodi'r rhain yn dda gan ddefnyddio pecynnau data masnachol. Mae bron pob CAA yn defnyddio'r asesiadau cyn mynediad a gwaelodlin hyn o fedrau i osod targedau ar gynlluniau dysgu unigol (CDUau). Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y CDUau, ar draws bron pob darparwr, yn cynnwys targedau ar gyfer camau bach o ddysgu na ffocws clir ar y gyrchfan a ddymunir gan y dysgwr. Mae staff mewn dau CAA yn defnyddio CDUau dysgwyr yn dda i lywio'r ffordd y maent yn cynllunio a chyflwyno gwersi.

5 Mae pedwar CAA yn gwneud cynnydd da o ran ehangu eu defnydd o ddata. Mae eu data yn mynd y tu hwnt i ennill cymwysterau a chyflawni unedau credyd erbyn hyn, i gynnwys medrau ehangach a chynnydd dysgwyr yn erbyn targedau CDU. Maent yn ychwanegu at yr asesiadau ffurfiol gyda gwybodaeth ac arbenigedd athrawon a rheolwyr gofal. Er enghraifft, maent yn pennu pa mor dda y gall dysgwr ymdopi â hylendid personol neu ddewis beth i'w wisgo i fod yn addas ar gyfer y tywydd. Fodd bynnag, nid yw llawer o CAAau yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff ac arbenigwyr i bennu mannau cychwyn gwaelodlin dysgwyr mewn meysydd fel cyfathrebu ac ymddygiad.

6 Mae'r colegau sy'n gosod targedau cadarn i ddysgwyr yn meddu ar ddata gwell ar gynnydd dysgwyr hefyd. Mae pedwar CAA yn adolygu cynnydd dysgwyr yn erbyn targedau CDU o leiaf bob wythnos. Fodd bynnag, mewn dau CAA, nid yw adolygiadau'n ddigon trylwyr, ac mae'n anodd nodi neu fesur cynnydd dysgwyr. Ni all y CAAau hyn goladu digon o wybodaeth i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru chwaith.

7 Un o’r dulliau pwysicaf y mae CAAau yn ei ddefnyddio ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr a chipio data yw cynlluniau dysgu unigol (CDUau). Mae’r CDUau mwyaf effeithiol:

- yn gosod cyfeiriad clir i’r dysgwr sy’n ei helpu i symud tuag ei ddyheadau ar gyfer y dyfodol
- yn cynnwys targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- yn cynnwys cyrchfan ffafriedig neu debygol y dysgwr
- yn cynllunio camau dysgu byr i’r dysgwr gyflawni canlyniad cadarnhaol
- yn rhoi ystyriaeth dda i ystod lawn y medrau y mae angen i’r dysgwr eu datblygu

8 Mae mwyafrif o CAAau yn cynnig ystod eang o raglenni dysgu, gan gynnwys amaethyddiaeth, garddwriaeth, crefftau pren ac arlwyo. Mae’r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio rhaglenni dysgu sydd wedi’u teilwra i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Mae’r rhan fwyaf o’r rhaglenni hyn yn cynnwys cydbwysedd da rhwng gwaith a gweithgareddau hamdden, ac mae llawer ohonynt yn cynnwys cyfleoedd priodol ar gyfer ymarfer corff. Mae bron pob CAA yn adolygu eu rhaglenni dysgu bob tymor i wneud yn siŵr eu bod yn parhau’n berthnasol i’r dysgwr. Fodd bynnag, nid yw rhaglenni dysgu’n rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr na chyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol.

9 Yn gyffredinol, nid yw CAAau yn sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng nifer y cymwysterau y mae dysgwr yn eu dilyn a datblygiad ei fedrau cyffredinol. Mae llawer o CAAau yn dibynnu gormod ar gymwysterau a thystysgrifau dysgu fel ffordd o asesu a mesur cynnydd dysgwyr.

10 Mae pob CAA yn defnyddio ystod o asesiadau gwaelodlin i nodi’r medrau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddatblygu. Defnyddiant yr asesiadau hyn yn dda i osod targedau llythrennedd a rhifedd ar CDUau. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn addysgu medrau llythrennedd a rhifedd trwy gyd-destunau y gall y dysgwyr uniaethu â nhw’n hawdd. Fodd bynnag, mae rhai o’r targedau hyn yn rhy gyffredinol. Mae hyn yn golygu eu bod yn anodd i’w cyflawni ac na ellir mesur cynnydd yn unol â nhw yn hawdd. Mewn rhai colegau, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith mewn dosbarthiadau medrau.

11 Mae pob CAA yn cynnwys ffocws clir ar ddatblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd dysgwyr. Gwnânt y gorau o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau cymdeithasol, ac maent yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am feysydd sy’n berthnasol i fyw yn annibynnol fel rheoli eu harian. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth anecdotaidd i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y meysydd hyn, nid yw CAAau yn gosod targedau, yn asesu cynnydd ac yn cofnodi tystiolaeth o’r dysgu hwn a allai eu helpu i arfarnu effeithiolrwydd eu gwaith a bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

12 Mae llawer o ddysgwyr ar draws pob CAA yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith. Mae’r rhain yn effeithiol o ran helpu dysgwyr i wella’u cyflogadwyedd, eu hunanhyder a’u hunan-barch. Fodd bynnag, nid yw’r broses i olrhain gwerth profiad gwaith wedi’i datblygu’n ddigonol, ac nid yw llawer o leoliadau gwaith yn ddigon penodol i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr.

13 Mae dysgwyr yn symud o CAAau i ystod o gyrchfannau sy’n cynnwys addysg bellach,

addysg uwch neu gyflogaeth. Mae rhai ohonynt yn symud i fyw â chymorth neu fyw yn annibynnol. Mae lleiafrif ohonynt, o golegau preswyl, yn symud yn ôl i fyw gyda'u rhieni. Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio'n dda ar gyfer cyfnod pontio dysgwyr allan o goleg wedi i'w cyrchfan ffafriedig gael ei sefydlu. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer pontio o goleg wedi'u seilio'n rhy aml ar yr hyn sydd ar gael yn hytrach nag ar ble byddai'r dysgwr yn dymuno bod.

14 Mewn dau CAA, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni eu dewis cyrchfan. Fodd bynnag, nid oes gan ryw hanner y dysgwyr mewn CAAau nodau cyrchfan cadarn pan fyddant yn dechrau eu cwrs. I leiafrif o ddysgwyr, mae oedi wrth ddod o hyd i leoliad cyrchfan addas. Mae cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid yn araf, ac mae oedi'n digwydd lle newidiwyd gweithiwr cymdeithasol neu ble mae dysgwyr o awdurdod lleol gwahanol i safle'r CAA.

# Argymhellion

**Dylai colegau arbenigol annibynnol:**

A1 Wneud yn siŵr bod yr holl asesiadau cyn mynediad yn berthnasol i ystod lawn anghenion dysgwyr, gan gynnwys cyfathrebu ac ymddygiad

A2 Gwneud yn siŵr bod pob CAA:

- yn cydnabod cyrchfan a ddymunir gan ddysgwyr
- yn nodi’n fras dargedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir ac yn amlinellu cynlluniau i gyflawni’r targedau hyn
- yn cael ei adolygu’n rheolaidd

A3 Datblygu prosesau clir i osod targedau, ac asesu, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd dysgwyr mewn medrau annibyniaeth

A4 Datblygu prosesau i fesur gwerth a deilliannau profiad gwaith

A5 Lleihau’r ddibyniaeth ar daflenni gwaith generig i addysgu medrau llythrennedd a rhifedd

**Dylai awdurdodau lleol:**

A6 Gydlynu’r wybodaeth sy’n mynd gyda dysgwyr rhwng darparwyr ac ar gyfnodau pontio

A7 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau a phrosesau ar gyfer cyrchfannau dysgwyr y tu hwnt i’r CAA ar waith yn ddigon cynnar i gael canlyniad cadarnhaol a chyfnod pontio didrafferth

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Adolygu’r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan CAAau i wneud yn siŵr ei bod yn glir a phenodol ac yn cynnwys ffocws ar gynnydd dysgwyr a chyrchfan a ddymunir gan y dysgwr, yn ogystal ag ennill cymwysterau

## Pa mor dda y mae colegau'n mesur cynnydd dysgwyr?

### Asesiad a gwybodaeth cyn mynediad gan ddarparwyr dysgu blaenorol

15 Mae pob CAA yn ceisio casglu cymaint o wybodaeth cyn mynediad ag y gallant am ddysgwr cyn iddo ddechrau yn y coleg ac yn ystod ei wythnosau cyntaf. Maent yn cyflawni hyn trwy broses o asesiadau cyn mynediad. Mewn pedwar CAA, caiff y prosesau asesu cyn mynediad hyn eu diffinio'n dda gyda nodau ac amcanion clir. Maent yn bwrpasol gyda ffocws cryf ar wneud yn siŵr mai'r ddarpariaeth fydd y lleoliad gorau i'r dysgwr.

16 Mae'r rhan fwyaf o asesiadau cyn mynediad yn ystyried gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y dysgwr ei hun, ei deulu, ei ddarparwr addysg presennol, gwasanaethau cymdeithasol ac ymgynghorwyr gyrfaoedd. Mae'r rhan fwyaf o CAAau hefyd yn craffu ar wybodaeth o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynlluniau addysg, iechyd a gofal (cynlluniau EHC), sydd gyfwerth yn Lloegr.

17 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn darpariaeth CAA wedi cael datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal cyn dechrau yn y coleg. Mae'r datganiadau a'r cynlluniau hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am natur unrhyw anawsterau ac anableddau dysgu, nodau dysgu eang a manylion am y cymorth y byddant yn ei gael yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Pan gaiff y rhain eu cwblhau'n gynhwysfawr, maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys argymhellion ar gyrchfan, mewn fformat cwbl hygyrch. Fodd bynnag, ni chaiff digon ohonynt eu cwblhau'n ddigon da i ddarparu ystod lawn y wybodaeth sydd ei hangen.

18 Mae pedwar CAA, yn enwedig y rheiny sydd â chyfleusterau preswyl, yn casglu gwybodaeth bersonol, emosiynol, gymdeithasol a meddygol, yn ogystal â gwybodaeth am anghenion a chyflawniad addysgol dysgwyr. Rhoddir pwyslais cryf ar gael dealltwriaeth drylwyr o unrhyw rwystrau rhag dysgu a'r meysydd dysgu y mae dysgwyr yn eu mwynhau'n benodol hefyd.

19 Mae dau CAA, pan fo modd, yn cynnal ymweliad defnyddiol â dysgwr yn ei ddarparwr presennol i arsylwi'n uniongyrchol y math o amgylchedd sydd wedi bod yn ffafriol i ddatblygiad y dysgwr, a chasglu gwybodaeth gan y darparwr ei hun. Mae'r wybodaeth a gaiff CAAau gan ddarparwyr presennol yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd ac ystod y wybodaeth. I rai dysgwyr, mae hyn yn amharu ar effeithiolrwydd prosesau asesu cyn mynediad y CAAau.

**Mae'r wybodaeth asesu cyn mynediad a gesglir gan CAAau yn cynnwys:**

**Meddygol:**

- anghenion meddygol
- asesiadau a diagnosisau clinigol
- adroddiadau meddyg
- cynlluniau gofal
- adroddiadau iechyd meddwl
- adroddiadau lleferydd ac iaith

**Addysgol:**

- datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gyfwerth
- cynlluniau pontio
- adroddiad ysgol diweddaraf
- adroddiad adolygiad blynyddol diweddaraf
- cynlluniau addysg unigol (CAUau)
- data ysgol a chanlyniadau profion
- achrediad/cymwysterau
- adroddiadau llythrennedd a rhifedd
- cynlluniau ymddygiad ysgol

**Personol a chymdeithasol:**

- adroddiadau lles emosiynol
- cynlluniau ffordd o fyw hanfodol
- asesiadau risg
- adroddiadau gwasanaethau cymdeithasol
- adroddiadau lleoliad seibiant

**Mae gwybodaeth asesiad gwaelodlin o fedrau gan CAAau yn cynnwys:**

- Gallu o ran medrau llythrennedd a meysydd i'w datblygu
- Gallu o ran medrau rhifedd a meysydd i'w datblygu

20 Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn gofyn am adroddiad byr gan y dysgwr ei hun hefyd. Mae'r rhain fel arfer yn canolbwyntio'n frwd ar faterion fel 'beth rydw i'n ei hoffi i'w fwyta', 'beth rydw i'n hoffi ei wneud gyda'r nos', a 'fy hoff wers'.

21 Yn ogystal â choladu tystiolaeth o ffynonellau allanol, mae pedwar o'r CAAau yn annog dysgwyr i ymweld â'r CAA cyn ei leoliad fel rhan o'i asesiad cyn mynediad. Mae'r ymweliadau hyn yn amrywio rhwng y chwe darparwr. Mewn dau ddarparwr, mae'r dysgwyr yn ymweld am ddiwrnod addysgol cyfan neu ran ohono. Yn y CAAau hyn, ni fydd y dysgwyr fel arfer yn ddysgwyr preswyl. Diben yr ymweliad yw galluogi dysgwyr i brofi'r ddarpariaeth. Caiff yr ymweliadau hyn eu hailadrodd yn aml dros gyfnod o sawl mis fel bod dysgwyr yn ymgyfarwyddo â'r amgylchoedd. Mewn tri darparwr arall, mae'r dysgwr yn ymweld am o leiaf ddiwrnod llawn gyda rhai

ymweliadau ychwanegol â digwyddiadau fel ffeiriau haf, diwrnodau agored a phenwythnosau gweithgarwch. Mae'r digwyddiadau hyn yn fuddiol i ddysgwyr dydd a dysgwyr preswyl fel ei gilydd. Daw'r dysgwr yn fwy cyfarwydd â'r amgylchedd, ac fe gaiff gyfleoedd defnyddiol i gyfarfod â'i gyfoedion. Mewn un CAA, mae dysgwyr yn mynd ar ymweliad sy'n para tridiau a byddant yn aros yn y llety preswyl. Mae hyn yn cyflawni dibenion gwerthfawr i'r darparwr a'r dysgwr fel ei gilydd. Yn y CAA hwn, caiff y dysgwr ei asesu'n anffurfiol yn barhaus gan staff addysg a staff preswyl. Mae'r CAA hwn yn cwblhau proffil asesu cynhwysfawr ar gyfer y dysgwr, ar sail adroddiadau gan athrawon, staff cymorth, staff preswyl, staff therapiwtig a'r dysgwr.

**Ymweliadau preswyl cyn mynediad yng Ngholeg Elidyr**

Yng Ngholeg Elidyr, caiff dysgwyr eu hannog i fanteisio ar ymweliad sy'n para tridiau i alluogi'r coleg a'r dysgwr i bennu p'un a yw'r lleoliad yn ffafriol i ddatblygiad y dysgwr.

Mae'r coleg yn darparu llety ar safle'r coleg ar gyfer y darpar ddysgwr. Mae'r dysgwr yn cyrraedd ar y diwrnod cyntaf yng nghwmni oedolyn, yn ymgynefino â'r llety ac yn cael cinio. Yn y prynhawn, mae'r oedolyn sydd yng nghwmni'r dysgwr yn cwblhau asesiad gofal gyda'r rheolwr tŷ ac asesiad addysg gyda'r pennaeth addysg cyn gadael y coleg. Mae pennaeth addysg y coleg yn cynllunio rhaglen ar gyfer y dysgwr am gyfnod yr ymweliad. Caiff y rhaglen ei chynllunio o amgylch diddordebau'r dysgwr a darparu profiad mor eang ag y bo modd yn unol ag anghenion a galluoedd y dysgwr.

Yn ystod yr ail ddiwrnod a bore'r trydydd diwrnod, mae'r dysgwr yn mynychu amryw ardaloedd gwaith a dosbarthiadau ar safle'r coleg.

Yn ystod y prynhawn ar y trydydd diwrnod, mae'r oedolyn sydd yng nghwmni'r dysgwr yn dychwelyd i'r coleg ac yn mynychu cyfarfod am anghenion cyfathrebu gyda'r dysgwr, wedi'i ddilyn gan gyfweliad strwythuredig.

Yn ystod yr ymweliad sy'n para tridiau, mae pob un o'r staff yn y coleg, gan gynnwys rheolwyr, athrawon, cynorthwywyr cymorth, rheolwyr gofal a staff gofal, yn defnyddio'r amser i arsylwi'r dysgwr yn anffurfiol. Maent yn llenwi ffurflenni cynhwysfawr ar bob agwedd ar gyflawniadau, ymddygiad ac anghenion addysgol a gofal y dysgwr.

Mae'r pennaeth addysg a'r pennaeth gofal yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol iawn i gefnogi gwybodaeth a gasglwyd cyn yr ymweliad. Gallant asesu anghenion y dysgwr, ac maent yn cymharu hyn â'r cyfleusterau a'r gofal y gallant eu cynnig. Mae'r broses yn sicrhau dealltwriaeth gadarn a thrylwyr o'r dysgwr ac mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n mynychu Coleg Elidyr yn ymgynefino'n gyflym ac yn cael deilliannau llwyddiannus.

22 Mae pedwar CAA yn defnyddio'r ymweliadau cyn mynediad yn dda i wirio a chadarnhau'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu yn flaenorol. Yn y CAAau gorau, caiff yr holl wybodaeth ei choladu a'i gwirio'n drylwyr am gysondebau ac anghysondebau naill ai gan dîm o uwch staff neu gan y pennaeth addysg. Creffir ar

unrhyw faterion neu rwystrau sy'n wynebu'r dysgwr yn ystod yr ymweliad ac fe gânt eu cymharu â'r wybodaeth sydd wedi'i choladu. Mae hyn yn golygu bod gan y rhan fwyaf o CAAau ddealltwriaeth drylwyr a chyflawn iawn o'r dysgwr cyn iddo ymuno, yn cynnwys ei allu addysgol, emosiynol a chorfforol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr y gall eu hanghenion dysgu effeithio ar eu gallu i addasu yn unol â sefyllfaoedd newydd a ble gall eu hymddygiad amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol leoliadau.

23 Wedi i'r holl wybodaeth bosibl gael ei derbyn, mae'r rhan fwyaf o CAAau yn ei defnyddio'n effeithiol i gynnig neu gynllunio rhaglen astudio sydd wedi'i theilwra'n benodol yn unol â galluoedd academaidd, diddordebau personol, anghenion addysgol ac anghenion datblygiad cymdeithasol y dysgwyr. Mae'r dysgwyr hyn yn ymgynefino'n gyflym iawn ac mae cynnydd canfyddadwy yn amlwg o gyfnod cynnar yn eu dysgu.

24 Fodd bynnag, mae llawer o CAAau yn cael trafferth cael proffil llawn y wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac yn y rhan fwyaf ohonynt, mae gormod o ddibyniaeth ar y wybodaeth a ddarperir gan rieni neu ofalwyr. Caiff rhai lleoliadau eu trefnu gyda chynllunio anghyflawn ymlaen llaw. I rai dysgwyr, mae diffyg cynllunio ymlaen llaw yn eu lleoliad blaenorol yn golygu y gofynnir am leoliadau newydd mor hwyr ag wythnos cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. I leiafrif o ddysgwyr, mae oedi wrth gadarnhau cyllid, ac mae hyn yn arafu'r broses asesu a chynllunio cyn mynediad. Mae anawsterau'n digwydd yn rhy aml pan fydd dysgwyr yn symud rhwng awdurdodau lleol neu rhwng gwledydd. I'r dysgwyr hyn, mae'r CAAau yn cynnal asesiadau manwl cyn gynted ag y bo modd, gan wneud defnydd effeithiol o weithwyr proffesiynol fel therapyddion a chwnselwyr i gael gwybodaeth yn gyflym. Er gwaethaf yr ymateb cyflym gan y CAAau, mae oedi anochel wrth ffurfio'r darlun llawn o'r dysgwr, ac mae llawer o'r dysgwyr hyn yn dechrau yn eu darpariaeth newydd heb raglenni astudio sydd wedi'u teilwra'n llawn, a heb drefniadau cadarn ar gyfer cymorth.

## Ystod, ansawdd a'r defnydd o ddata i fesur cynnydd

25 Mae pedwar CAA yn defnyddio ystod briodol o ddata i fesur cynnydd dysgwyr. Maent yn cipio data yn effeithiol i fesur cynnydd dysgwyr mewn medrau fel llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Defnyddiant gofnodion sefydliad dyfarnu yn gyson i gipio data ar gyfer cyflawniadau mewn cymwysterau ac unedau credyd. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt gofnodion a data cadarn ar gyfer presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr. Mae gan lawer ohonynt systemau cipio data defnyddiol ar gyfer mesur cynnydd yn y targedau ehangach sy'n gysylltiedig â datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol.

26 Mae bron pob un o'r CAAau yn cael eu data trwy sefydlu mannau cychwyn y dysgwyr a mesur cynnydd dysgwyr oddi yno. Defnyddiant asesiad gwaelodlin cyn mynediad a medrau'n dda i bennu gallu presennol y dysgwyr yn erbyn ystod o fesurau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ceisio cael y mesurau gwaelodlin cyn mynediad a medrau cyn i'r dysgwyr ddechrau eu rhaglenni dysgu, neu yn yr wythnosau cyntaf. Mae hyn yn rhoi data cadarn iddynt o ddechrau'r rhaglenni dysgu ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol iddynt osod targedau ystyrlon.

27 Mae pob CAA yn defnyddio ystod eang o becynnau masnachol ar-lein ac ar bapur fel

ei gilydd, i asesu gwaelodlinau medrau dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweddu'r rhain yn dda i alluoedd y dysgwyr. Yn ychwanegol i'r rhain, mae pedwar o'r CAAau wedi casglu ystod addas o ddeunyddiau asesiad gwaelodlin medrau at ei gilydd sy'n addas ar gyfer anghenion dysgwyr o alluoedd gwahanol a phennu mannau cychwyn y dysgwyr ar gyfer medrau ehangach ysgrifennu rhydd, deall testunau a medrau meddwl. Mae rhai o'r rhain wedi'u hunangynllunio gan y CAAau i fodloni eu hanghenion penodol eu hunain a'r dysgwyr.

28 At ei gilydd, mae pob CAA yn defnyddio deunyddiau asesu gwaelodlin cyn mynediad a medrau sy'n berthnasol a phriodol i'r dysgwyr. Mae bron pob un o'r asesiadau hyn yn briodol i oedran y dysgwyr. Mae pedwar CAA yn ychwanegu at yr asesiadau ffurfiol gyda gwybodaeth ac arbenigedd athrawon a rheolwyr gofal. Er enghraifft, gallent bennu pa mor dda y gall dysgwr ymdopi â hylendid personol neu wneud dewisiadau priodol ynghylch gwisgo'n addas ar gyfer y tywydd. Fodd bynnag, nid yw llawer o CAAau yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff ac arbenigwyr i sefydlu mannau cychwyn gwaelodlin medrau dysgwyr mewn meysydd fel cyfathrebu ac ymddygiad.

29 Un o'r dulliau pwysicaf y mae CAAau yn eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr a chipio data yw trwy ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol (CDUau). Mae bron pob CAA yn defnyddio eu hasesiadau gwaelodlin cyn mynediad a medrau yn dda i osod targedau dysgu ar gyfer dysgwyr. Caiff y targedau hyn eu cofnodi'n gyson mewn CDUau. Pryd bynnag y bo modd, mae bron pob CAA yn cynnwys y dysgwr ei hun wrth osod a chofnodi targedau. Mae hyn yn galluogi'r dysgwr i ddeall, a chymryd perchnogaeth ar, ei ddysgu a'i gynnydd ei hun.

30 Nid oes unrhyw fformat cyson i CDUau mewn CAAau ac mae'r strwythur yn amrywio rhwng darparwyr. Gallant amrywio o set o ddalenni unigol i ffeil gynhwysfawr. Gallant fod yn amlswyddogaethol a chwmpasu ystod o dargedau ar draws medrau academaidd, personol, ymddygiadol a chymdeithasol neu gallant fod yn benodol i bob un o'r meysydd hyn.

31 Mae'r CDUau mwyaf effeithiol:

- yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y dysgwr sy'n ei helpu i symud tuag at ei ddyheadau yn y dyfodol
- yn cynnwys targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- yn cynnwys cyrchfan ffafriedig neu debygol y dysgwr
- yn cynllunio camau dysgu byr i'r dysgwr gyflawni canlyniad cadarnhaol
- yn rhoi ystyriaeth dda i ystod lawn y medrau y mae angen i'r dysgwr eu datblygu

32 Fodd bynnag, mae gan fwyafrif o CDUau ar draws bron pob darparwr dargedau nad ydynt yn ddigon byr na digon penodol i alluogi camau dysgu bach. Ni chaiff rhai ohonynt eu cwblhau'n ddigon cynnar i'w defnyddio'n uniongyrchol mewn rhaglen ddysgu. Mae lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio'n ormodol ar nodau a deilliannau cymhwyster ac yn esgeuluso'r medrau ehangach fel llythrennedd a rhifedd, medrau cymdeithasol a bywyd a datblygiad personol.

33 Ychydig iawn o CDUau sy'n cydnabod cyrchfan ddisgwyliedig y dysgwr, neu'r gyrchfan y bydd yn ymgyrraedd ati. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn datblygu

medrau generig ac yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn meysydd na fyddant o reidrwydd yn eu defnyddio yn y dyfodol neu'n eu cefnogi yn eu cyflogaeth neu wrth iddynt fyw yn annibynnol yn y dyfodol.

34 Mewn dau CAA, mae staff yn defnyddio CDUau y dysgwyr yn dda iawn. Yn y CAAau hyn, mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o nodau a thargedau'r CDU. Mae pob un o'r staff yn defnyddio'r wybodaeth am y CDUau ym mhob gwers. Defnyddiant y targedau fel blaenoriaeth wrth gynllunio eu dulliau a'u strategaethau addysgu. Mae athrawon a staff cymorth yn adolygu CDUau yn gyson i wneud yn siŵr eu bod yn berthnasol a chyfoes. Fodd bynnag, mewn dau CAA, ni chaiff CDUau eu deall yn dda, mae gormod o ffocws ar eu defnyddio fel cofnod o weithgarwch gwers ac nid ydynt yn darparu cyfeiriad clir a ffocysedig ar gyfer dysgu.

35 Mewn pedwar CAA, mae'r rhan fwyaf o CDUau yn rhoi ystyriaeth dda i ddysgu blaenorol dysgwyr, a'u cyflawniad. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i wneud yn siŵr bod y dysgwr yn symud ymlaen yn ei fedrau a'i ddatblygiad.

36 Mae pob CAA yn gwella'u systemau a'u prosesau ar gyfer cipio, cofnodi a dadansoddi data yn gyson. Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn defnyddio pecynnau masnachol ar-lein i olrhain a dadansoddi data. Er bod ystod y pecynnau masnachol yn amrywio rhwng y CAAau, mae'r holl becynnau'n effeithiol o ran cynhyrchu gwybodaeth berthnasol. Mae pob CAA yn gyson dda yn cofnodi'r cymwysterau a'r unedau credyd a gyflawnir gan ddysgwyr. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad o ran pa mor effeithiol y mae CAAau yn cofnodi a monitro cynnydd a chyflawniad dysgwyr mewn medrau ehangach fel medrau cyfathrebu, ymddygiad, meddwl a chymhelliant. Mae systemau ar gyfer olrhain a monitro medrau personol a chymdeithasol dysgwyr yn rhy ddibynnol ar unedau credyd ac nid ydynt yn gwneud nodyn digonol o gynnydd dysgwyr.

37 At ei gilydd, mae data mwy cadarn ar gynnydd dysgwyr gan y colegau sy'n gosod targedau trylwyr i ddysgwyr. Mae tua thraean o CAAau yn mesur cynnydd a chyflawniad dysgwyr mewn perthynas â'u targedau unigol yn dda iawn. Yn y colegau hyn, ceir strwythur cadarn a chynhwysfawr ar gyfer gosod targedau ar gyfer y CDU sy'n fyr, mesuradwy, cyflawnadwy ac yn berthnasol i'r dysgwr.

**Gosod targedau yng Ngholeg Elidyr**

Mae gan Goleg Elidyr fformat strwythuredig ar gyfer targedau ar gynlluniau dysgu unigol dysgwyr.

Mae'r coleg yn gosod 10 targed ar gyfer pob dysgwr:

- Mae tri tharged yn canolbwyntio ar fedrau preswyl, gan gynnwys medrau personol fel arferion hylendid, medrau cadw tŷ fel defnyddio'r peiriant golchi, a medrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu yn y gymuned ehangach.
- Mae tri tharged yn canolbwyntio ar ddatblygiad llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- Mae tri tharged yn canolbwyntio ar fedrau cyfathrebu, cymdeithasol a chyfranogiad mewn dysgu.

- Mae targed pellach yn ymwneud â phrofiad gwaith. Mae'r targed profiad gwaith bob amser yn benodol i gyd-destun. Caiff cynnydd mewn lleoliadau profiad gwaith ei gofnodi yn llyfr cofnod profiad gwaith unigol y dysgwr hefyd.

Mae athrawon yn cofnodi cynnydd yn erbyn y targedau bob dydd. Mae'r pennaeth addysg yn adolygu ffeiliau cynnydd athrawon unwaith yr wythnos ac yn rhoi adborth i'r athro ar ansawdd y dystiolaeth a gofnodwyd. Mae'r adolygiadau hyn yn llywio'r adolygiadau cynnydd a gynhelir deirgwaith y flwyddyn sy'n cael eu mynychu gan y dysgwr, a chaiff cynnydd ei gofnodi'n ffurfiol.

Mae'r broses hon yn darparu systemau cadarn i'r coleg olrhain a dangos cynnydd dysgwyr. Y gyfradd cynnydd yn erbyn targedau yw 91% ar hyn o bryd.

38 Mewn pedwar CAA, mae athrawon yn adolygu targedau'r CDU a chynnydd y dysgwr yn erbyn y targedau hyn o leiaf bob wythnos, ac yn aml yn fwy rheolaidd. Caiff y broses ei goruchwylio gan y pennaeth addysg ac fe gaiff y wybodaeth ei choladu ar adegau perthnasol trwy gydol y flwyddyn, yn unol â'r hyn a bennir gan gylch ansawdd y darparwr. Caiff y wybodaeth a goladwyd ei defnyddio'n dda i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr adroddiadau hunanasesu ac i lywio cynllunio gwella ansawdd.

39 Fodd bynnag, mewn dau CAA, nid yw'r cylch sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn na thrylwyr. Nid yw targedau dysgwyr yn fesuradwy neu ni chânt eu cofnodi'n glir, ac nid yw staff yn eu defnyddio'n ddigon da i asesu cynnydd dysgwyr. Mae gwiriadau ansawdd CDUau, i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cwblhau'n gywir a'u defnyddio'n gyson ar draws y ddarpariaeth, yn rhy brin. Yn y CAAau hyn, mae'n anodd iawn diffinio, nodi neu fesur cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn golygu na all y CAAau hyn gwblhau datganiadau Llywodraeth Cymru yn ddigon da na chyflenwi ansawdd y wybodaeth sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

40 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob CAA lenwi ffurflen i roi manylion iddynt am gynnydd dysgwyr. Mae ffurflenni'n unigol i'r dysgwr ac yn cynnwys targedau CDU dysgwr wedi'u coladu. Mae ansawdd a safon llenwi'r ffurflenni hyn yn amrywio gormod o fewn CAAau, a rhyngddynt. Ni all Llywodraeth Cymru nodi targedau na chynnydd dysgwyr yn hawdd, ac ni all arfarnu'r deilliannau ar gyfer y cyllid y maent yn ei ddarparu yn effeithiol.

## Pa mor dda y mae colegau'n paratoi dysgwyr ar gyfer pontio?

### Pontio i goleg

41 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn pontio'n effeithiol i'w dewis CAA. Mae'r prosesau asesu cyn mynediad a gyflawnir gan y CAAau yn gwneud yn siŵr bod bron pob un o'r dysgwyr yn cael digon o amser i ymweld â'u darpariaeth newydd. Mae hyn yn rhoi amser defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu adnabyddiaeth o'r amgylchoedd, ac mewn mwyafrif o achosion, cyfarfod â ffrindiau newydd.

42 Mae’r chwe CAA yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth ac maent wedi’u seilio ar amrywiaeth o egwyddorion addysgol. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn dewis eu lleoliad CAA ar sail ffafriaeth rhieni ac argymhellion gan Gyrfa Cymru ac awdurdodau lleol. Caiff y rhan fwyaf o benderfyniadau eu seilio ar b’un a all y CAA gynnig rhaglenni a phrofiadau dysgu sy’n bodloni diddordebau ac anghenion y dysgwyr. Un o’r prif ystyriaethau yw cyfleusterau gofal addas, sy’n berthnasol i anghenion iechyd y dysgwyr. Gwneir y rhan fwyaf o benderfyniadau am leoliad yn unol â gofynion presennol y dysgwyr. Ychydig iawn o benderfyniadau am leoliad sy’n cael eu seilio ar gyrchfan ddisgwyliedig dysgwr y tu hwnt i’r CAA. Er enghraifft, nid yw dysgwr a nodir ar gyfer cyflogaeth bosibl o reidrwydd yn cael ei gyfeirio at CAA ar sail ei ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant manwerthu.

43 Fodd bynnag, mae bron pob CAA yn gweithio’n dda gyda’r dysgwr i bennu p’un a ydynt yn gallu cynnig y dewisiadau gorau o ran gofal ac addysg fel ei gilydd. Os yw’r CAA yn teimlo na allant fodloni anghenion y dysgwr, maent yn ei gyfeirio’n briodol at ddarpariaeth arall neu’n ôl at Gyrfa Cymru.

## Cynllunio rhaglenni

44 Mae’r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio rhaglenni dysgu teilwredig yn dda i fodloni anghenion a diddordebau dysgwyr unigol. Mae bron pob un o’r CAAau yn dyrannu’r dysgwyr i grwpiau bach i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol a rhyngweithiol. Mae llawer o’r grwpiau hyn wedi’u seilio ar alluoedd y dysgwyr. Er enghraifft, yng Ngholeg Beechwood, caiff dysgwyr eu dyrannu’n fras i ddosbarthiadau gallu is, canolig ac uwch. Fodd bynnag, mae pob CAA yn rhoi blaenoriaeth sylweddol i ble bydd y dysgwr yn teimlo’n gyfforddus o ran eu medrau personol, cymdeithasol a chyfathrebu.

45 Mae’r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio rhaglenni dysgu sy’n galluogi’r dysgwyr i symud o gwmpas y coleg rhwng ystafelloedd dosbarth, gweithdai a mannau allanol. Mae hyn yn cynnig amrywiaeth ac yn helpu i gynnal diddordeb a chymhelliant. Maent yn cynllunio amrywiaeth ysgogol o ddosbarthiadau sy’n ennyn diddordeb y dysgwyr ac yn eu cymell.

46 Yn y rhan fwyaf o CAAau, caiff bron pob un o’r rhaglenni dysgu eu cynllunio’n dda i ddarparu cymysgedd addas o weithgareddau gwaith a hamdden. Yn ogystal â dysgu ffurfiol, maent yn cynnwys ystod o weithgareddau anffurfiol sydd wedi’u seilio ar brofiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae dysgwyr yng Ngholeg Elidyr ac yng Ngholeg Plas Dwbl yn cyflwyno eu cynnyrch gardd i’w werthu i’r cyhoedd ac mae dysgwyr yng Ngholeg Pengwern yn gwerthu’r wyau gan ieir y coleg.

47 Mae llawer o raglenni dysgu hefyd yn cynnwys maint priodol o ymarfer corff yn unol ag iechyd, galluoedd a diddordebau’r dysgwyr. Mae’r gweithgareddau corfforol hyn yn cynnwys nofio, gemau, dawns a theithiau cerdded.

48 Mae mwyafrif o’r CAAau yn cynnig ystod eang o raglenni dysgu. Mae’r rhain yn cynnwys amaethyddiaeth, garddwriaeth, crefftau pren ac arlwyo. Yn ychwanegol, gall dysgwyr gael tystysgrifau dysgu mewn meysydd fel celf a dylunio, cerddoriaeth a medrau gefail. Mae rhai dysgwyr, os yw eu gallu a’u diddordebau’n caniatáu, yn dilyn cyrsiau academaidd a galwedigaethol mewn colegau addysg bellach lleol. Mae hyn yn ehangu ystod y dewisiadau dysgu sydd ar gael iddynt ac yn darparu cyfle

gwerthfawr ar gyfer atgyfnerthu medrau cymdeithasol a phersonol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng Ngholegau'r Priory yn dilyn cyrsiau yn y colegau addysg bellach lleol gyda chymorth gan staff Coleg Priory. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn dilyn astudiaethau academaidd yn hytrach na rhai galwedigaethol, er bod rhai dysgwyr yn dilyn cyrsiau mewn meysydd fel gwallt a harddwch a'r masnachau adeiladu.

49 Mae bron pob CAA yn adolygu rhaglenni astudio dysgwyr yn ffurfiol bob tymor i wneud yn siŵr eu bod yn parhau'n berthnasol i'r dysgwr. Maent yn adolygu'r targedau tymor byr, canolig a hir ar CDUau ac yn rhoi ystyriaeth dda i gynnydd y dysgwyr. Yn ychwanegol, mae adolygiadau anffurfiol o gynnydd a lles emosiynol y dysgwyr yn mynd rhagddynt yn y rhan fwyaf o CAAau.

50 Fodd bynnag, nid yw rhaglenni dysgu yn y rhan fwyaf o CAAau yn rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr. Nid yw'r rhaglenni dysgu ar gyfer y rheiny y rhagwelir y byddant yn symud i fyw â chymorth neu fyw yn annibynnol yn ddigon perthnasol i'r nod terfynol hwn. Ni roddir digon o sylw i'r meysydd cyflogaeth posibl a allai fod yn ddewis i ddysgwyr mwy abl. Mae gormod o ddysgwyr heb raglenni dysgu trylwyr ac ystyrlon, gyda thargedau penodol ar CDUau, a fydd yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer eu dyfodol tebygol.

**Mae rhaglenni dysgu yng Ngholeg Plas Dwbl wedi'u cynllunio o amgylch y gyrchfan a ddymunir gan ddysgwyr**

Mae staff yng Ngholeg Plas Dwbl yn datblygu rhaglenni dysgu perthnasol a defnyddiol sy'n sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gyrchfan ddisgwyliedig a dymunedig y dysgwr.

Mae rheolwr taith myfyrwyr y coleg yn trafod nodau tymor hir y dysgwr gyda'r dysgwr fel rhan o'r broses asesu cyn mynediad pan fydd yn dechrau yn y coleg. Caiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo i'r CDU a'i rhannu â phob un o'r staff a'r athrawon sydd â chyfrifoldeb i osod targedau tymor byr a fydd yn gamau dysgu bach tuag at y cyrchfannau a ddymunir.

Mae rheolwr taith y myfyrwyr yn cadeirio cyfarfodydd cynnydd sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr bob tymor, sy'n ddefnyddiol wrth helpu pob un o'r staff a'r athrawon i gadw ffocws clir ar daith y dysgwr. Caiff nodau tymor hir eu hadolygu i wirio am berthnasedd, ac fe gaiff cymwysterau eu hadolygu i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gefnogi'r gyrchfan a ddymunir gan y dysgwr. Pan fydd angen newid y nodau yn dilyn trafodaethau gyda'r dysgwr, caiff y rhain eu rhannu â phob un o'r tiwtoriaid, ac mae'r tîm llwybrau yn ailosod nodau tymor byr a chymwysterau perthnasol y dysgwr yn unol â hynny.

Mae hyn yn golygu bod rhaglenni dysgu wedi'u hanelu'n glir a chadarn iawn at gynorthwyo'r dysgwr i gyflawni ei gyrchfannau dymunedig. Llwyddodd pawb a adawodd y coleg y llynedd i fynd ymlaen i'w cyrchfan ddymunedig, sef naill ai addysg bellach neu gyflogaeth.

**Cymwysterau a thystysgrifau dysgu**

51 Mae dysgwyr ym mhob un o'r colegau wedi cael cyfle da iawn i ennill ystod eang o gymwysterau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymwysterau Asdan ar lefelau dyfarniad, tystysgrif a diploma
- BTEC ar lefelau amrywiol
- Unedau credyd Agored ar lefelau amrywiol
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru
- Cymwysterau City a Guilds
- Gwobrau Dug Caeredin

52 Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr eu cofrestru ar gyfer cymwysterau ar y lefel gywir i'w datblygiad a'u gallu. Mae bron pob un ohonynt yn ennill y cymwysterau y maent wedi cael eu cofrestru ar eu cyfer. Mae llawer o'r rhain yn gymwysterau sy'n cydnabod eu medrau mewn meysydd byw yn annibynnol, cynnydd personol a datblygiad cymdeithasol. Mae dysgwyr yn nau Goleg Priory yn dilyn cymwysterau academaidd trwy'r darparwyr addysg bellach ar lefel UG a Safon Uwch.

53 Mae rhai CAAau yn gwneud defnydd da o unedau credyd i gael tystysgrifau ar gyfer dysgwyr mewn meysydd fel gofal anifeiliaid, manwerthu, arlwyo a galwedigaethau gweithdy, gan gynnwys nyddu a thurnio coed. I bron pob un o'r dysgwyr, gall tystysgrif neu gymhwyster eu cymell a rhoi ymdeimlad o falchder iddynt yn eu gwaith.

54 Yn gyffredinol, nid yw CAAau yn rhoi ystyriaeth ddigon da i'r cydbwysedd rhwng nifer o gymwysterau y mae dysgwr yn eu dilyn a'u datblygiad medrau cyffredinol. I rai dysgwyr, caiff y pwyslais gormodol ar ennill cymhwyster effaith negyddol ar ddatblygiad eu medrau cyffredinol a'u targedau personol. Mae llawer o CAAau yn dibynnu'n ormodol ar gymwysterau a thystysgrifau dysgu fel ffordd o asesu a mesur cynnydd dysgwyr.

**Medrau llythrennedd a rhifedd**

55 Mae pob CAA yn defnyddio canlyniadau asesiad gwaelodlin medrau yn dda i nodi'r medrau llythrennedd a rhifedd y mae angen i ddysgwyr eu datblygu. Defnyddiant y wybodaeth hon i osod targedau penodol ar gyfer dysgwyr, ac maent yn cofnodi'r rhain yn glir ar CDUau y dysgwyr. Fodd bynnag, mewn hanner y CAAau, mae targedau medrau yn parhau i fod yn rhy annelwig a generig i gael eu mesur neu'u cyflawni'n hawdd.

56 Mae bron pob un o'r dysgwyr, yn y rhan fwyaf o CAAau, yn mynychu dosbarthiadau penodol ar gyfer datblygu medrau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon medrau yn meddu ar gymwysterau addas, ac mae llawer ohonynt yn cynllunio'n dda i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy gyd-destunau y gallant eu hadnabod a thrwy destunau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Fodd bynnag, mewn hanner y CAAau, ceir gormod o ddibyniaeth ar daflenni gwaith. Mae enghreifftiau'n cynnwys dysgwyr yn llenwi taflenni symiau pur a gwneud rhestr o ansoddeiriau heb gyd-destun neu berthnasedd. O ddysgu ar wahân, ni all dysgwyr drosglwyddo'r medrau hyn i feysydd dysgu eraill nac i'w bywydau'n gyffredinol.

57 Mewn hanner y CAAau, caiff medrau llythrennedd a rhifedd eu datblygu'n dda iawn trwy'r holl wersi. Yn y CAAau hyn, mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth a dealltwriaeth glir o dargedau medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr ac maent yn cynllunio'n dda iawn i gynnwys gweithgareddau yn eu haddysgu a fydd yn gwella a chefnogi'r nodau targed penodol. Er enghraifft, mewn sesiynau gwaith coed yng Ngholeg Elidyr, mae dysgwyr yn defnyddio amcangyfrif, rhagweld a mesur i ddylunio bwrdd coffi o faint addas i ddal chwe chwpan coffi. Yng Ngholeg Pengwern, mae dysgwyr yn ymarfer medrau cyfrif yn ystod gweithgareddau entrepreneuraidd yn siop y coleg.

58 Mae gan bedwar CAA gydlynwyr llythrennedd a rhifedd dynodedig sy'n rheoli a monitro llythrennedd a rhifedd ar draws y coleg. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am olrhain cynnydd dysgwyr mewn medrau ac am ddatblygu medrau athrawon ar draws pob pwnc. Mewn llawer o CAAau, mae hyn yn arwain at gynllunio effeithiol ar gyfer dilyniant.

59 Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn defnyddio CDUau dysgwyr yn dda i olrhain cynnydd dysgwyr mewn datblygu medrau. Maent yn adolygu targedau medrau'r CDU yn rheolaidd i asesu cynnydd, cadarnhau cyflawniad a gosod targedau newydd. Mae llawer o CAAau yn defnyddio eu pecynnau masnachol cyn mynediad yn effeithlon i ailasesu dysgwyr yn rheolaidd. Defnyddiant yr ailasesiad i gefnogi a chadarnhau olrhain targedau'r CDU.

## Medrau bywyd a medrau annibynnol

60 Mae pob CAA yn cynnwys ffocws clir a phenodol ar ddatblygu medrau bywyd ac annibyniaeth dysgwyr ac yn cydnabod bod y medrau hyn yn flaenoriaeth i bob dysgwr mewn darpariaeth CAA. Mae bron pob un o'r CAAau yn drylwyr iawn o ran asesu'r medrau bywyd ac annibyniaeth y mae angen i ddysgwyr eu datblygu, ac mae prosesau asesu cyn mynediad yn effeithiol o ran casglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau a chan weithwyr proffesiynol.

61 Yn y ddau Goleg Priory, mae staff yn cynllunio'n dda i leihau dros gyfnod faint o gymorth y maent yn ei roi i ddysgwyr ar eu prif raglenni coleg. Maent yn lleihau lefel y cymorth dros gyfnod y cwrs i alluogi dysgwyr i ymdopi'n fwy annibynnol pan fyddant yn mynd ymlaen i gyrsiau addysg uwch neu i brifysgol. Pan fydd angen, maent yn addysgu dysgwyr sut i deithio'n ddiogel i safleoedd y coleg ac yn atgyfnerthu hyn â theithio diogel mewn lleoliadau cymdeithasol fel siopa a nosweithiau allan.

62 Yn y rhan fwyaf o CAAau eraill, yn enwedig y rheiny sydd â dysgwyr is eu gallu, rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu medrau dysgwyr ar gyfer byw â chymorth neu fyw yn annibynnol. Caiff amserlenni dysgwyr eu cynllunio i gynnwys gwersi ar gymryd rhan yn y gymuned, coginio i un a rheoli cartref. Yng Ngholeg Elidyr, mae'r cwricwlwm 24 awr wedi'i rannu'n nifer ddefnyddiol o feysydd targed, gan gynnwys rheoli arian, hylendid personol, iechyd, cadw tŷ, cludiant, medrau mewn argyfwng a medrau diogelwch, a hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol.

63 Yn y lleoliad addysg, mae'r rhan fwyaf o CAAau yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau bywyd ac annibyniaeth trwy fentrau fel helpu i baratoi cinio a symud o gwmpas y safle ar eu pen eu hunain.

64 Fodd bynnag, mae'r drefn barhaus o osod targedau, asesu, olrhain, monitro ac

arfarnu medrau bywyd a medrau annibynnol yn wan mewn pump o'r chwe CAA. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i'r dysgwyr hynny y mae eu prif dargedau'n gysylltiedig â medrau bywyd ac annibyniaeth. Er bod tystiolaeth anecdotaidd glir o ddysgwyr yn gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu'r medrau hyn, nid yw cofnodion ffurfiol yn ddigon cynhwysfawr na sicr i ddarparu tystiolaeth gadarn. Mae hyn yn golygu nad oes digon o dystiolaeth i CAAau allu arfarnu ansawdd, effaith a deilliannau'r maes gwerthfawr hwn o'u gwaith. Yn ychwanegol, ni all CAAau ddefnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

## Profiad gwaith

65 Mae bron pob CAA yn cydnabod gwerth profiad gwaith yn dda i wella a datblygu medrau personol, cymdeithasol, annibyniaeth a chyflogadwyedd dysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt brosesau cadarn i nodi dysgwyr a fyddai'n elwa ar gyfleoedd profiad gwaith.

66 Mae lleoliadau profiad gwaith bron ym mhob coleg wedi'u teilwra'n dda yn ôl pob dysgwr unigol, ar sail argaeledd a diddordeb dysgwr. Mae bron pob CAA yn darparu cyfleoedd mewnol defnyddiol sy'n gam defnyddiol tuag at leoliadau allanol i rai dysgwyr llai hyderus. Mae cyfleoedd mewnol yn cynnwys gweithio yn siop y coleg, yr ardd neu'r ceginau, gofalu am anifeiliaid bach, glanhau ceir, dyletswyddau desg derbynfa, a chynorthwyo â rheoli fferm. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o CAAau, mae rhai staff yn rhoi gormod o bwyslais ar gael y dysgwr i 'roi help llaw', yn hytrach nag ymgymryd â phrofiad gwaith strwythuredig a chynlluniedig.

67 Mae gan bron bob CAA gysylltiadau cadarn ag ystod o gyflogwyr. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt gydlynydd profiad gwaith sy'n ymdrechu i sicrhau lleoliadau addas. Mewn dau CAA, mae'r cysylltiadau â chyflogwyr yn eang a chryf iawn. Mae'r cyflogwyr hyn yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr ac yn derbyn dysgwyr yn rheolaidd iawn. Er enghraifft, mae gan Goleg Pengwern bartneriaeth effeithiol â chwmni lleoliadau profiad gwaith lleol. Maent yn cynnig cyfleoedd priodol i ddysgwyr weithio mewn meysydd fel arlwyo, manwerthu ac ailgylchu.

68 Yn ogystal â chyflogwyr, mae'r rhan fwyaf o CAAau yn gweithio'n effeithiol gyda grwpiau gwirfoddol i ddarparu rhagor o gyfleoedd profiad gwaith. Gall dysgwyr yng Ngholeg Plas Dwbl ddewis ymuno â gwirfoddolwyr mewn meysydd fel gardd gymunedol, y parc bywyd gwyllt ac mewn menter gymdeithasol sy'n gwneud bara. Mae dysgwyr o Goleg Elidyr yn ymuno â gwirfoddolwyr i gyfrannu at sefydliadau elusennol fel canghennau lleol Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru a'r RSPCA.

69 Mae pob CAA yn defnyddio cyfleoedd profiad gwaith yn dda i ddatblygu medrau dysgwyr mewn meysydd pwysig fel prydlondeb, cymryd cyfrifoldeb, cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol. Mae dysgwyr yn elwa ar ddatblygu'r medrau cyflogadwyedd generig hyn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn magu hyder a hunan-barch. Gall llawer ohonynt ddefnyddio'r medrau y maent yn eu hennill mewn meysydd eraill o'u bywydau, a dywed llawer o rieni eu bod yn gallu gweld newidiadau cadarnhaol sylweddol yn agwedd eu plentyn at annibyniaeth a chyfrifoldeb cymdeithasol.

70 Mewn dau CAA, caiff lleoliadau profiad gwaith eu cynllunio'n ofalus gyda chyfleoedd sy'n berthnasol i'w cyrchfannau dymunedig. Yn y lleoliadau hyn, mae dysgwyr yn

datblygu'r medrau penodol sydd eu hangen ar gyfer eu cyrchfan ddymunedig yn ogystal â medrau cyflogadwyedd. Fodd bynnag, mewn llawer o CAAau, nid yw llawer o leoliadau gwaith yn ddigon penodol i gyrchfan ddymunedig y dysgwr a'i ddyfodol tebygol.

71 Mae gan bob CAA brosesau priodol i gynnal asesiadau risg ar gyfer lleoliadau gwaith. Maent yn ymweld â'r darparwyr yn rheolaidd ac yn cynnal cyfathrebu cyson a pharhaus â nhw i sicrhau diogelwch y dysgwyr a gwerth y gwaith y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, mae dod o hyd i ddigon o staff i fynd gyda dysgwyr i leoliadau gwaith, ac o fewn lleoliadau gwaith, yn her, ac yn rhy aml, mae'r diffyg adnodd hwn yn cyfyngu ar nifer y lleoliadau gwaith y gall colegau eu cefnogi.

72 Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cofnodi profiad gwaith ar ffeiliau ac adroddiadau'r dysgwyr. Mae un CAA yn monitro effaith y lleoliadau gwaith yn effeithiol iawn ac yn annog y dysgwyr i gadw eu cofnod a'u cofnodion priodol eu hunain fel tystiolaeth werthfawr i gefnogi unrhyw geisiadau cyflogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu gwerth profiad gwaith wedi'u datblygu'n ddigon da.

## Pontio o goleg

73 Mae bron pob CAA yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad priodol am eu dyfodol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd mewn sesiynau tiwtorial a dosbarthiadau datblygiad personol a dinasyddiaeth i ennyn diddordeb dysgwyr mewn trafodaethau am eu bywydau y tu hwnt i'r coleg yn y dyfodol.

74 Fodd bynnag, nid oes gan ddigon o ddysgwyr gyrchfan glir, adnabyddedig a phenodol ar ddechrau eu cwrs. Mae hyn yn golygu bod trefniadau ar gyfer cyfnod pontio dysgwr o'r coleg yn cael ei seilio'n rhy aml ar yr hyn sydd ar gael iddo bryd hynny, yn hytrach na chynllunio cadarn ar gyfer ble mae arno eisiau bod a'r hyn y mae arno eisiau ei gyflawni.

**Cynllunio ar gyfer pontio llwyddiannus yng Ngholeg Plas Dwbl**

Mae Coleg Plas Dwbl yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddysgwyr bontio o'r coleg yn llwyddiannus.

Mae'r coleg yn dechrau cynllunio ar gyfer cyrchfan effeithiol cyn gynted ag y bydd y dysgwr yn dechrau yn y coleg. Mae tîm llwybrau'r coleg yn cyfarfod â'r dysgwr i weithio gydag ef i ffurfio cynllun priodol a fydd yn ei alluogi i gyflawni ei nodau tymor hir. Caiff dysgwyr eu cynorthwyo gan y tîm llwybrau i ddilyn y cynllun hwn trwy gydol eu cyfnod yn y coleg fel eu bod yn sicr ynglŷn â'r hyn y maent yn anelu ato o ran eu dyfodol erbyn eu blwyddyn olaf.

Mae gan y coleg ddealltwriaeth drylwyr o'r cyfnod sydd ei angen ar gyfer yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â dysgwr i sicrhau cyrchfan gadarn. Felly, maent yn dechrau cynllunio gyda rhanddeiliaid yn nhymor yr hydref yn ystod blwyddyn olaf y dysgwr, pan fydd y tîm llwybrau'n cadeirio cyfarfod trosglwyddo a chynllunio sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Cyfarfod amlasiantaethol yw hwn, ac mae'r tîm llwybrau,

y gwasanaethau cymdeithasol, Gyrfa Cymru a theulu'r dysgwr yn mynychu'r cyfarfod hwn.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, mae'r tîm llwybrau yn gweithio gydag asiantaethau perthnasol i sicrhau bod cyfleoedd tai a swyddi yn ardal leol y dysgwr wedi eu trefnu cyn gynted ag y bo modd. Mae'r tîm llwybrau'n cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt ymweld â thai posibl, lleoliadau gwaith neu addysg bellach.

Mae'r coleg yn adolygu'r cynlluniau gyda'r dysgwr ac mae'r dysgwr yn llenwi amserlen bontio. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i'r dysgwr gwblhau a defnyddio cymwysterau galwedigaethol sy'n berthnasol i'w nod tymor hir ac ymgymryd â chyfleoedd profiad gwaith terfynol a pherthnasol.

Pan fydd yr holl randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn ymgysylltu'n dda â'r darparwr a'r dysgwr, mae dysgwyr yn cyflawni cyrchfannau llwyddiannus lle mae ganddynt rôl i'w chwarae mewn cymdeithas a dyfodol ystyrlon o'u blaenau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, llwyddodd pob dysgwr yng Ngholeg Plas Dwbl i gyflawni eu cyrchfan ddymunedig.

75 Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cysylltu'n dda â darparwyr addysg bellach prif ffrwd i nodi llwybrau dilyniant i addysg bellach. Mae rhai dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg bellach yn dilyn cyrsiau galwedigaethol mewn meysydd fel masnachau adeiladu, garddwriaeth, arlwyo a lletygarwch, ac astudiaethau ceffyl. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau medrau byw yn annibynnol. Mae'r dysgwyr hyn yn parhau i ddilyn rhaglenni sy'n debyg i'r rheiny yn y CAA am dair blynedd gan amlaf, yn hytrach na chyrsiau penodol sy'n arwain yn uniongyrchol at gyflogaeth â chymorth neu gyflogaeth heb gymorth.

76 Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cysylltu'n dda â'r awdurdod lleol a Gyrfa Cymru i wneud yn siwr bod y cyfnod pontio o'r coleg mor ddidrafferth ag y bo modd i'r dysgwr. Maent yn eu cynorthwyo'n dda i ymweld â'u cartref neu weithle newydd i'w helpu i ymgynefino'n gyflym. Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn pennu pa wybodaeth sydd ei hangen ar y lleoliad newydd ac yn gwneud yn siwr bod yr holl fanylion perthnasol yn mynd gyda'r dysgwr.

## Cyrchfannau


77 Mae dysgwyr yn symud o CAAau i ystod o gyrchfannau sy'n cynnwys addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth. Mae rhai ohonynt yn symud i fyw â chymorth neu i fyw yn annibynnol. Mae lleiafrif ohonynt, o golegau preswyl, yn symud yn ôl i fyw â'u rhieni.

78 Mewn dau CAA, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni eu dewis cyrchfan. Yn y CAAau hyn, mae dysgwyr mwy abl yn symud i gyrsiau addysg bellach, hyfforddeiaethau, neu gyflogaeth. Mae dysgwyr llai abl, yr oedd byw yn annibynnol neu fyw â chymorth yn nod cyrchfan ganddynt, yn cyflawni eu nod ac yn mynd â medrau manylach â nhw a fydd yn eu galluogi i fod mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau ac mewn cymdeithas.

79 Pan fydd cynllunio ymlaen llaw cadarn ar gyfer dysgwyr mewn CAAau, mae ganddynt lwybr wedi'i nodi sy'n dechrau pan fyddant yn gadael yr ysgol ac mae'n mynd â nhw y tu hwnt i'w cyfnod mewn CAA. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn cyflawni cyrchfan ystyrlon ac yn sicrhau dyfodol sy'n eu galluogi i fod yn aelod gweithgar o gymdeithas yn berthnasol i'w gallu a'u diddordebau.

80 Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes gan ryw hanner dysgwyr CAAau nodau cyrchfan a nodwyd pan fyddant yn dechrau eu cwrs. I lawer ohonynt, mae cynllunio cyrchfan yn digwydd yn rhy hwyr yn eu dysgu iddynt allu cael dewisiadau perthnasol a realistig. Mae gan ychydig iawn o ddysgwyr ddisgwyliadau afrealistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni. Mae llawer o ddysgwyr yn mynd yn ôl i fyw gartref ac yn mynychu gwasanaethau dydd neu ddosbarthiadau medrau byw yn annibynnol cymunedol.

**Cyrchfannau ymadawyr rhwng 16 a 25 oed o'r holl Golegau Arbenigol Annibynnol, Cymru, 2015**




Mae'n dangos cyrchfannau 48 o ymadawyr.
Mae "arall" yn cynnwys 3 ymadawr sy'n dechrau byw â chymorth, 3 sy'n dechrau cyflogaeth a 2 sy'n mynd i Addysg Uwch.

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan bob coleg arbenigol annibynnol (Heb ei gyhoeddi)

81 I leiafrif o ddysgwyr sy'n sicr ynglŷn â'u dewis ar gyfer eu dyfodol, mae oedi yn aml wrth ddod o hyd i leoliad cyrchfan diogel ac addas. Mae dysgwyr a CAAau yn ddibynnol ar gyfathrebu cadarn gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau neu drosglwyddo cyllid. Mae llawer o oedi estynedig yn digwydd lle mae gweithwyr cymdeithasol wedi newid sawl gwaith neu ble mae dysgwyr yn dod o awdurdod lleol gwahanol i safle'r CAA. Yn ychwanegol, mae diffyg cyfleoedd cyflogaeth addas ar gael a diffyg lleoliadau gwaith lle gall dysgwyr ddefnyddio'r medrau y maent wedi'u datblygu yn ystod eu cyfnod yn y CAA. I lawer o ddysgwyr, prin yw'r dewis ar gyfer eu dyfodol, ac mae llawer ohonynt yn derbyn yr hyn sydd ar gael yn y diwedd, yn hytrach na'r hyn sy'n bodloni eu hanghenion.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â'r chwe choleg arbenigol annibynnol yng Nghymru, sef:

- Coleg Beechwood
- Cymunedau Camphill Coleg Elidyr
- Coleg Plas Dwbl
- Coleg Pengwern
- Coleg Priory Gogledd Cymru
- Coleg Priory De Cymru

Yn ystod ymweliadau â'r chwe choleg, cyfarfu arolygwyr â'r pennaeth addysg, y staff a'r dysgwyr. Fe wnaethant graffu ar ddogfennau a data ac archwilio cofnodion o gynnydd a dilyniant dysgwyr.

Casglwyd tystiolaeth hefyd trwy graffu ar ddogfennau perthnasol, gwybodaeth o adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth o ymweliadau monitro blynyddol Estyn.

**Rhestr cyfeiriadau**

Great Britain (2000) *Learning and Skills Act 2000.* Section 140. London: The Stationery Office. [Ar-lein}. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/pdfs/ukpga_20000021_en.pdf [Defnyddiwyd 21 Ebrill 2016].

Llywodraeth Cymru (2015) *Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/consultation/150703-draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill-e.pdf [Defnyddiwyd 21 Ebrill 2016].

# Atodiad 2: Colegau arbenigol annibynnol yng Nghymru

## Coleg Beechwood

Coleg arbenigol annibynnol a chartref gofal yw Coleg Beechwood, sydd wedi'i leoli yn Sili ym Mro Morgannwg. Perchennog y coleg yw Beechwood Court Ltd, sy'n rhan o Grŵp Gofal Iechyd Ludlow Street. Mae'r coleg yn cynnig lleoliadau dydd a phreswyl i ddysgwyr 16 mlwydd oed ac yn hŷn sydd ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig. Mae gan rai dysgwyr anghenion iechyd meddwl cysylltiedig neu anaf caffaeledig i'r ymennydd hefyd. Mae llawer o ddysgwyr yn arddangos ymddygiadau sy'n herio hefyd. Mae gan rai ohonynt anawsterau corfforol. Agorwyd Coleg Beechwood ym Medi 2004. Cyrhaeddodd y dysgwyr cyntaf yn Ionawr 2005.

Y cyfarwyddwr addysg sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am redeg y coleg. Mae'r pennaeth addysg yn arwain tîm o diwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu ac mae ganddo gyfrifoldeb am ddarparu a chyflwyno'r holl raglenni addysg. Mae uwch dîm rheoli'r coleg yn cynnwys y cyfarwyddwr addysg, rheolwr y cartref gofal a'r arweinydd clinigol.

Mae gan y coleg ddarpariaeth ar gyfer tua 57 o ddysgwyr preswyl a 20 o ddysgwyr dydd. Daw dysgwyr i'r coleg o ystod eang o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr.

## Cymunedau Camphill Coleg Elidyr

Coleg arbenigol annibynnol preswyl yw Coleg Elidyr sydd wedi'i leoli mewn Cymuned Camphill ar gyfer pobl ifanc rhwng 18 a 30 oed. Mae ystâd y coleg yn cynnwys fferm weithio, gardd gegin a choedwig. Mae gan y coleg ddarpariaeth ar gyfer tua 18 o ddysgwyr sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg, y mae pob un ohonynt yn byw ar y safle yn un o'r chwe chartref preswyl. Daw mwyafrif y dysgwyr hyn o Gymru. Daw'r dysgwyr eraill o Loegr.

Mae'r campws hefyd yn gartref i 18 oedolyn arall, rhwng 23 a 29 oed, sy'n cael eu hariannu gan wasanaethau cymdeithasol ar gyfer lleoliadau preswyl yn y gymuned. Nid yw Estyn yn arolygu'r ddarpariaeth hon.

Cafodd y cwricwlwm yng Ngholeg Elidyr ei ysbrydoli'n wreiddiol gan athroniaeth addysgol a chymdeithasol Rudolf Steiner a Karl König. Mae'n pwysleisio dysgu arbrofol ac ymarferol ac yn cynnig cyfuniad o bynciau ar y tir, pynciau galwedigaethol a phynciau crefft i helpu dysgwyr i ddatblygu medrau ar gyfer bywyd mwy annibynnol.

Caiff y coleg ei arwain gan dîm arweinyddiaeth, sy'n atebol i fwrdd ymddiriedolwyr.

## Coleg Plas Dwbl

Agorwyd Coleg Plas Dwbl, sy'n rhan o Grŵp Ymddiriedolaeth Melin Ruskin, ym Medi 2011. Mae wedi'i leoli ar fferm can erw ar droed mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro. Mae'r tir yn cynnwys tir pori, coedwig a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth.

Mae’r coleg yn darparu ar gyfer dysgwyr preswyl a dysgwyr dydd sydd ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg canolbwyntio ac anhwylderau ymlyniad. Mae dysgwyr preswyl yn byw mewn tai ar y safle neu yn y pentref cyfagos. Mae gan y coleg ddarpariaeth ar gyfer tua saith o ddysgwyr rhwng 18 a 25 oed.

Mae’r coleg yn seilio’i athroniaeth addysgol ar egwyddorion sylfaenol yr athronydd a’r gwyddonydd Rudolph Steiner. Mae’n cynnig cwricwlwm Addysg Therapiwtig Medrau Ymarferol, sy’n rhoi cyfle i ddysgu trwy weithgareddau bywyd go iawn.

Caiff y coleg ei reoli gan y pennaeth a thîm addysg a staff preswyl. Mae Ymddiriedolaeth Melin Ruskin yn goruchwylio gwaith y coleg.

Mae’r coleg yn rhannu swyddogaethau allweddol gyda Choleg Melin Ruskin. Mae’r rhain yn cynnwys gwasanaethau technegol, adnoddau dynol, rheoli iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygiad staff a chymorth ariannol.

**Coleg Pengwern**

Coleg arbenigol annibynnol yw Coleg Pengwern sy’n darparu addysg ar gyfer hyd at 75 o ddysgwyr rhwng 16 a 25 oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddwys a lluosog, anableddau corfforol ac anhwylder y sbectrwm awtistig. Mae gan y coleg gyfleusterau preswyl, ac mae’n derbyn dysgwyr dydd hefyd.

Mae’r coleg wedi’i leoli mewn lleoliad gwledig yn Rhuddlan, yng Ngogledd Cymru, ac mae ganddo fferm fach ac ysgol goedwig o fewn y tir helaeth. Nod y coleg yw rhoi i ddysgwyr y medrau a’r hyder sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu bywydau, p’un a ydynt yn cael swydd, yn symud tuag at fyw yn annibynnol neu’n mynd ymlaen i astudio ymhellach.

Mae’r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau swyddogaethol, galwedigaethol, personol, cyfathrebu a chyflogaeth. Mae dau lwybr, sef: archwilio gwaith ac archwilio annibyniaeth. Mae gan bob dysgwr raglen ddysgu unigol sy’n cynnig cyfle i ddilyn cyrsiau achrededig, dysgu yn y gwaith, rhaglenni gwella cyfathrebu, medrau byw yn annibynnol a gweithgareddau cyfoethogi.

Ym Mai 2014, prynwyd y coleg oddi wrth Mencap gan y Cambian Group.

**Coleg Priory Gogledd Cymru**

Coleg arbenigol annibynnol yw Coleg Priory Gogledd Cymru sy’n darparu cymorth a gofal i oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd â syndrom Asperger, anhwylder y sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig. Mae’r coleg ger campws Iâl Coleg Cambria yn Wrecsam.

Oherwydd cymhlethdod eu hanghenion a’u galluoedd dysgu, caiff lleiafrif o ddysgwyr eu haddysg ar safle Coleg Priory ei hun yn unig. Mae’r dysgwyr hyn yn dilyn cyrsiau cyn mynediad a lefel mynediad, gan gynnwys medrau byw yn annibynnol.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau amser llawn yng Ngholeg Cambria. Maent yn astudio ystod eang o gyrsiau o gymwysterau lefel mynediad mewn ystod o bynciau i Safon Uwch, er enghraifft mewn daearyddiaeth a daeareg. Mae pob dysgwr, beth bynnag yw eu prif le astudio, yn cael cymorth yn y dosbarth a chymorth ychwanegol gan staff Coleg Priory, er enghraifft i ddatblygu eu defnydd cymdeithasol o iaith.

Mae Coleg Priory Gogledd Cymru yn rhan o'r cyfleusterau addysg a gynigir gan Grŵp Priory. Nod y grŵp yw rhoi cymorth unigoledig a theilwredig i bobl ifanc i'w galluogi i gyflawni eu hannibyniaeth academaidd a'u nodau cymdeithasol a datblygu'r medrau bywyd annibynnol angenrheidiol ar gyfer integreiddio i'r gymuned, ynghyd â medrau cyflogadwyedd i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer gwaith.

Caiff Coleg Priory Gogledd Cymru ei reoli bob dydd gan yr is-bennaeth. Mae pennaeth yn goruchwylio gwaith pob un o'r colegau yng ngrŵp Priory.

## Coleg Priory De Cymru

Mae Coleg Priory De Cymru yn darparu addysg ôl-ysgol ar gyfer tua 40 o ddysgwyr, rhwng 16 a 25 oed, sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig. Mae Coleg Priory De Cymru wedi'i leoli o fewn tir campws Coleg Gwent ym Mhont-y-pŵl.

Mae dysgwyr Coleg Priory De Cymru yn manteisio ar ystod eang o gyfleusterau. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd hyfforddiant galwedigaethol arbenigol fel adeiladu a salonau gwallt a harddwch proffesiynol, sy'n agored i'r cyhoedd. Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau a ddarperir gan Goleg Gwent yn adeiladau'r prif gampws ac yn cael cymorth ychwanegol yn ôl yr angen gan ganolfan ddysgu arbenigol Coleg Priory De Cymru.

Yn ychwanegol, mae Coleg Priory De Cymru yn cynnig nifer fach o gyrsiau penodol ar gyfer cyflogadwyedd, defnydd cymdeithasol o iaith, therapi celf a medrau byw yn annibynnol.

Mae Coleg Priory De Cymru yn rhan o'r cyfleusterau addysg a gynigir gan Grŵp Priory. Nod y grŵp yw rhoi cymorth unigoledig a theilwredig i bobl ifanc i'w galluogi i gyflawni eu hannibyniaeth academaidd a'u nodau cymdeithasol a datblygu'r medrau bywyd angenrheidiol ar gyfer integreiddio yn y gymuned, ynghyd â medrau cyflogadwyedd i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer gwaith.

Caiff Coleg Priory Gogledd Cymru ei reoli o ddydd i ddydd gan yr is-bennaeth. Mae pennaeth yn goruchwylio gwaith pob un o'r colegau yng ngrŵp Priory.

## Geirfa/cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| **AAA** | Anghenion addysgol arbennig |
| **ADY** | Anghenion dysgu ychwanegol |
| **BTeC** | Cyngor addysg fusnes a thechnegol |
| **CAA** | Coleg arbenigol annibynnol |
| **CAU** | Cynllun addysg unigol |
| **CDU** | Cynllun dysgu unigol |
| **Cynllun EHC** | Cynllun gofal iechyd addysg |
| **Lefel UG** | Lefel uwch gyfrannol |
| **MBA** | Medrau byw yn annibynnol |
| **RSPCA** | Y Gymdeithas Frenhinol er atal creulondeb i anifeiliaid |
| **Safon Uwch** | Safon uwch |
| **TGCh** | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Gill Sims | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Caroline Rees | Tîm yr adroddiad cylch gwaith |
| Richard Tither | Tîm yr adroddiad cylch gwaith |